# YMWELIADAU SAFLE

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 21 Ebrill, 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Dafydd Roberts, Ieuan Williams, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Rheoli Datblygu (NJ)<br>Uwch Swyddog Cynllunio (Gorfodaeth) a Swyddog Achos ar gyfer cais 1 (OWH)<br>Uwch Beiriannydd (Traffig a Pharcio) (AR)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes MBE |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Aelod Lleol: y Cynghorydd Llinos Medi (ar gyfer cais 1) |

---

**1 FPL/2021/10 - CAIS ÔL-WEITHREDOL AR GYFER CODI MODURDY AR DIR GER BRON CASTELL, LLANFAIRYNGHORNWY**

Amlinellwyd y cynnig i'r Aelodau ac esboniwyd y rhesymau a roddwyd dros symud y garej. Dangoswyd 4 fideo o safle'r cais i'r aelodau a oedd yn cynnwys yr olygfa i fyny o'r ffordd yn cynnwys y fynedfa, y garej a'r annedd a gymeradwywyd ac sy'n cael ei hadeiladu; yr olygfa o Bron Castell - yr annedd ger y garej gan gynnwys yr ardd yn cwmpasu ardaloedd y lawnt, y llecynnau llawr caled a'r ffin, gan ddangos agosrwydd y garej sy'n destun y cais i Bron Castell; a hefyd y persbectif ehangach o ben arall y pentrefan a oedd yn dangos y garej a'r annedd sydd wedi'i hadeiladu'n rhannol yn eu cyd-destun.
Amlygodd y Swyddog Achos y gwahaniaethau rhwng y garej a gymeradwywyd o dan gyfeirnod cynllunio 18C225B a'r garej sy'n cael ei hadeiladu o ran lleoliad, maint a golwg a chyfeiriodd at ychwanegu ffenestri a'r effeithiau o ran cysgodi.

Cododd yr aelodau nifer o gwestiynau mewn perthynas â'r safle a dyluniad a golwg y garej, gan holi a fyddai wedi ei chysylltu â rhai cyfleustodau.

Gofynnodd yr aelodau hefyd am gopi o'r cynllun a'r gosodiad gwreiddiol ar gyfer y safle a'r rhai cyfredol.

**Cynghorydd Nicola Roberts**
**Cadeirydd**